Image not found or type unknown

# Adnoddau ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau

Adnoddau, deunyddiau hyfforddi a gwybodaeth am ddefnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau.

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 January 2020

Diweddariad olaf: 11 February 2025

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/ymarfer-syn-seiliedig-ar-gryfderau/adnoddau-ymarfer-syn-seiliedig-ar-gryfderau am y fersiwn diweddaraf.

**Adnoddau, deunyddiau hyfforddi a gwybodaeth am ddefnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau.**

Mae ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau'n dechrau gyda deall 'yr hyn sy'n bwysig' i bobl a'r pethau y maen nhw am eu cyflawni (a elwir yn 'ganlyniadau personol' neu 'nodau').

Mae'n gwella eu llesiant ac yn ein helpu i weithio allan a oes angen cymorth ar bobl i wneud y pethau hynny.

Dyma rai adnoddau i'ch helpu i gytuno ar ganlyniadau gyda'r bobl rydych yn gofalu amdanynt neu eu cefnogi a gweithio allan beth sydd ei angen arnynt i gyflawni'r canlyniadau hyn.

### Cliciwch ar y botwm 'dangos' wrth ymyl pob pwnc i weld yr adnoddau.

## Adnoddau

### Cael sgyrsiau 'beth sy'n bwysig'

Dangos

**Gwerthoedd ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau**

Yn esbonio'r gwerthoedd sydd eu hangen ar bobl i weithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau.

**Canllaw sgwrs**

Yn esbonio sut i ddarganfod beth sy'n bwysig i'r person rydych chi'n gweithio gydag ef, cytuno ar ganlyniadau, dod o hyd i'w cryfderau a gweithio allan ble

mae angen cymorth arnynt.

**Llyfryn canlyniadau personol**

Yn esbonio beth yw canlyniadau personol ac yn rhoi enghreifftiau o ddatganiadau canlyniadau.

**Taflenni gwaith datganiadau canlyniadau personol**

Taflen waith y gellir ei brintio sy'n esbonio'r gwahanol bethau sy'n gwneud datganiad canlyniadau da, gydag ymarfer i weld a allwch chi nodi datganiadau canlyniadau.

## Cofnodi achosion

Dangos

**Cyfaill nid gelyn;sut i ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wrth gofnodi achos**

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar egwyddorion ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn esbonio sut i gefnogi cofnodi achosion personol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gan ddefnyddio ymchwil, ymgynghori ag ymarferwyr, a thystiolaeth o'r hyn a all weithio.

**Fideo: gwneud cofnodi'n rhywbeth 'byw' a chydgysylltiedig ar draws fudiadau**

**Fideo: gwneud cofnodi'n rhywbeth personol a hygyrch**

**Fideo: cofnodi hanesion un – stori Fran**

**Fideo: cofnodi hanesion dau – Helen a’r crëyr**

## Offer goruchwylio ac ymarfer myfyriol

Dangos

**Canllaw i oruchwylio ac arfarnu'n dda**

Cafodd y canllaw hwn ei hysgrifennu ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant, ond gall hefyd fod yn ddefnyddiol i staff gofal cymdeithasol.

**Fformat ar gyfer grwpiau myfyriol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau**

Esbonio sut i gynnal sesiynau grŵp myfyriol gyda staff.

**Sut i gynnal sesiwn oruchwylio da gan ddefnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau: cyflwyniad**

Yn trafod sut y gall ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau fod yn ddefnyddiol mewn goruchwyliaeth.

**Sut i gynnal sesiwn oruchwylio da gan ddefnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau: oedolion**

Mae Jay a Rhoda yn dangos senario rhwng rheolwr ac ymarferydd sy'n gweithio mewn lleoliad gofal cymdeithasol i oedolion. Mae Rhoda yn defnyddio dull sy’n seiliedig ar gryfderau i fyfyrio ar y gwaith, ac i fagu hyder bod y cynllun yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig i’r person mae Jay’n ei gefnogi.

**Sut i gynnal sesiwn oruchwylio da gan ddefnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau: plant**

Mae Rhoda a Jay yn dangos senario rhwng rheolwr ac ymarferydd mewn lleoliad amddiffyn plant. Mae Rhoda yn defnyddio dull sy’n seiliedig ar gryfderau i fyfyrio ar y gwaith, ac i fagu hyder bod y cynllun yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig ac yn cadw'r plentyn yn ddiogel.

## Astudiaethau achos a straeon personol

Dangos

**Pam mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn bwysig**

Mae rhiant yn esbonio sut y gwnaeth ymarferydd ei helpu i newid y ffordd y gwnaeth ryngweithio â'i phlant gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

**Beth oedd yn bwysig i mi**

Mae Mr Britton a'i weithiwr, Lucy, yn esbonio sut y gwnaethon nhw weithio gyda'i gilydd mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddarganfod beth oedd yn bwysig iddo.

**Gwybod beth sy'n wirioneddol bwysig i bobl**

Dyma stori Lucy am weithio gyda Mr Britton i gyflawni'r hyn oedd wir yn bwysig iddo.

**Stori Andy: enghraifft wych o gydweithio effeithiol**

Mae'r stori hon yn tynnu sylw at daith Andy, sydd wedi bod yn un anodd a hir ar adegau, ond sy'n dangos positifrwydd cydweithio. Gwrandewch ar Andy a'r tîm o weithwyr proffesiynol a weithiodd gydag ef i gyflawni ei ganlyniadau.

**Datblygu cynllun diogelwch gyda rhiant**

Gwyliwch y fideo hwn i weld sut mae Dawn gweithiwr cymdeithasol yn gweithio gyda rhiant i ddatblygu cynllun diogelwch.

## Fideos e-ddysgu a hyfforddiant

Dangos

**Dechrau gyda chryfderau: beth sy'n bwysig mewn cynllunio gofal a chymorth**

Mae'r modiwl e-ddysgu hwn yn egluro hanfodion ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, a thechnegau i'ch rhoi ar ben ffordd. Mae'n cymryd tua 90 munud i'w

gwblhau.

**Cofnodi achosion**

Mae'r modiwl e-ddysgu hwn yn esbonio sut y gallwch ddefnyddio arfer sy'n seiliedig ar gryfderau i gofnodi achosion a helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae'n cymryd tua 30 munud i'w gwblhau.

**Cydbwyso hawliau a chyfrifoldebau**

Mae'r modiwl e-ddysgu hwn yn esbonio sut y gallwn ddefnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau i wella'r broses o ryddhau o'r ysbyty. Mae'n cymryd tua 30 munud i'w gwblhau.

**Arwain ansawdd fel Unigolyn Cyfrifol: ymgorffori arferion sy'n seiliedig ar gryfderau**

Mae'r fideo hyfforddi hwn yn esbonio sut y gall Unigolion Cyfrifol (RIs) a rheolwyr hyrwyddo arferion sy'n seiliedig ar gryfderau i wella ansawdd gwasanaeth.

## Gwasanaethau amddiffyn plant

Dangos

**Canllawiau: defnyddio ymarfer seiliedig ar gryfderau mewn gwasanaethau amddiffyn plant**

Yn esbonio sut i ddefnyddio arferion sy'n seiliedig ar gryfderau i gefnogi plant a theuluoedd mewn gwasanaethau amddiffyn plant.

## Cydbwyso risgiau, hawliau a chyfrifoldebau

Dangos

**Risg gadarnhaol a gwneud penderfyniadau ar y cyd**

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y dystiolaeth o sut mae risg gadarnhaol yn

cefnogi hawliau pobl a sut y gallwch feithrin diwylliant o gymryd risg cadarnhaol yn eich sefydliad.

**Egwyddorion ymarfer ar gyfer cydbwyso risgiau, hawliau a chyfrifoldebau i oedolion: dull cadarnhaol o risg**
Mae'r adnodd hwn yn darparu rhestr o egwyddorion cytunedig y dylid eu defnyddio wrth gydbwyso risgiau a hawliau â'ch cyfrifoldebau pan fyddwch yn gweithio gydag oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth

**Straeon personol am gydbwyso hawliau, risg a chyfrifoldebau**
Ymarfer byr yn seiliedig ar straeon personol i ymarferwyr, a fydd yn eich helpu i feddwl am y ffordd y byddech yn cydbwyso risgiau, hawliau a chyfrifoldebau.

## Adnoddau ymarfer sy’n seiliedig ar gryfderau ar gyfer gofal cartref

Dangos

Set o adnoddau ar gyfer gweithwyr gofal cartref a chymorth i ddefnyddio ymarfer seiliedig ar gryfderau yn eu gwaith. Gellir eu defnyddio fel rhan o hyfforddiant ffurfiol neu ar eu pennau eu hunain.

Gellir defnyddio'r adnodd hefyd i gefnogi staff sy'n cwblhau *Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol (AWIF).* Rydyn ni wedi nodi yn y canllaw lle maen nhw'n cyd-fynd â'r AWIF.

**Adnodd dysgu gofal cartref: trosolwg byr (dogfen ddwyieithog)**

**Cyflawni canlyniadau: pennod 1.1 – deall canlyniadau**

**Cyflawni canlyniadau: pennod 1.2 – canlyniadau cofnodi a monitro**

[Cyflawni canlyniadau: pennod 1.3 – cysylltu â'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol]

[Cael sgwrs dda: pennod 2 – sgwrs 'beth sy'n bwysig']

[Deall a defnyddio dull canlyniadau: siop-un-stop i bobl sy'n arwain ac yn dylanwadu ar ymarfer mewn gofal cartref]

## Adnoddau ymarfer sy’n seiliedig ar gryfderau ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA)

Dangos

Mae'r adnoddau hyn yn cefnogi fframwaith cymwyseddau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a hefyd y rhai sy'n gwneud y cymhwyster ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol.

**Pecyn rheolwyr**

Canllaw ac adnoddau i helpu rheolwyr i gynnal ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau a hyfforddiant canlyniadau i bobl sy'n gweithio yng ngwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

[Pecyn adnoddau seiliedig ar sgiliau: 'sgyrsiau beth sy'n bwysig' sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn IAA]

[Pecyn adnoddau sy'n seiliedig ar sgiliau: PowerPoint sleidiau]

**Pecyn hyfforddwyr**

Canllaw ac adnoddau i helpu hyfforddwyr i redeg ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau a hyfforddiant canlyniadau i reolwyr sy'n gweithio yng

ngwasanaethau IAA.

**Pecyn adnoddau ar gyfer rheolwyr: 'sgyrsiau sy'n bwysig i ganlyniadau' yn IAA**

**Pecyn adnoddau ar gyfer rheolwyr: sleidiau PowerPoint**

### Asesu anghenion cymorth gofalwyr

Dangos

Esbonio sut i ddarganfod beth sy'n bwysig i ofalwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth gywir.

**Asesu anghenion cymorth gofalwyr: adnodd A – llawlyfr hyfforddi**

**Asesu anghenion cymorth gofalwyr: adnodd B – sleidiau hyfforddi**

**Asesu anghenion cymorth gofalwyr: adnodd C – hunan-hyfforddiant ymarferydd**

**Asesu anghenion cymorth gofalwyr: adnodd D – pecyn cymorth i ymarferwyr**

## Hyfforddiant a digwyddiadau

### Hyfforddiant

Ar gyfer hyfforddiant ar ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, siaradwch â'ch arweinydd hyfforddi a datblygu.

### Gweithdai a digwyddiadau

Rydyn ni weithiau'n cynnal gweithdai a digwyddiadau yn seiliedig ar ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau.

Cadwch lygad ar ein tudalen digwyddiadau ar gyfer y digwyddiadau diweddaraf sydd ar ddod.

## Cymryd rhan

### Cymuned ymarfer sy’n seiliedig ar gryfderau

Mae gennym gymuned ddigidol ar gyfer pobl sy'n defnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau fel rhan o'u rôl. Gallwch ei ddefnyddio i gysylltu ag ymarferwyr eraill a rhannu arfer gorau. I ymuno â'r gymuned, e-bostiwch cryfderau@gofalcymdeithasol.cymru

### Grŵp mentoriaid cenedlaethol Cymru gyfan

Rydyn ni’n dod â phobl ynghyd sy'n hyrwyddo arferion sy'n seiliedig ar gryfderau yn eu sefydliadau fel rhan o grŵp mentoriaid Cymru gyfan.

Mae'r grŵp yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn ac yn helpu'r rhai mewn rolau tebyg i gysylltu, myfyrio a rhannu ymarfer a heriau.

Mae'r cyfarfodydd fel arfer ar-lein ac yn para dwy awr. Maen nhw'n rhyngweithiol ac yn canolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig i fentoriaid.

I gael gwybod mwy am y rhwydwaith, e-bostiwch cryfderau@gofalcymdeithasol.cymru

## Siaradwch â ni am ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau

Hoffwn glywed am y pethau rydych chi'n eu gwneud i gefnogi ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau. I gysylltu â ni, e-bostiwch cryfderau@gofalcymdeithasol.cymru